



Rheolwyr cartrefi preswyl i blant ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2022



Beth yw'r pwyntiau allweddol?

- Mae rheolwyr gofal preswyl i blant wedi gorfod cofrestru gyda ni ers 2007
- Mae 310 o reolwyr wedi cofrestru, cynnydd o'r 299 a oedd wedi cofrestru yn 2021
- 44 yw oedran cyfartalog rheolwyr
- Mae 270 o wasanaethau gofal preswyl i blant wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru
- Mae rhai o'r rheolwyr sydd ar y Gofrestr yn gweithio fel dirprwy reolwyr neu reolwyr cynorthwyol.



Faint ymunodd â'r Gofrestr a'i gadael?

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth 52 o reolwyr ymuno â'r Gofrestr a gadawodd 41
- Cafodd 58.5% o'r rhai wnaeth ymadael eu tynnu o'r Gofrestr am nad oedden nhw wedi cynnal eu cofrestriad
- Arhosodd 15% ar y Gofrestr mewn rôl wahanol.



Ble mae rheolwyr yn gweithio?

- Mae 78% yn gweithio yn y sector preifat
- 15% yn gweithio i wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol
- Mae 27% o reolwyr wedi bod yn eu swydd bresennol ers pum mlynedd neu fwy
- Mae 56.5% o reolwyr wedi newid i rôl newydd yn y tair blynedd diwethaf.



Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

- Mae nifer y rheolwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr wedi cynyddu 59% yn y pum mlynedd diwethaf
- Mae'r gymhareb menywod i dynion oddeutu 3:2
- Mae canran y rheolwyr sy'n cael eu cyflogi yn y sector preifat wedi cynyddu fymryn o 70% yn 2017 i 78% eleni
- Mae canran y rheolwyr sy'n 40 oed neu'n iau wedi cynyddu o 36% yn 2017 i 42% eleni.



Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

- Mae gan bob rheolwr cartref preswyl i blant gymhwyster perthnasol
- Mae gan 64% Ddiploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rheoli Gofal Preswyl i Blant a Phobl Ifanc (Cymru)
- Mae gan bawb arall gymhwyster cyfatebol perthnasol.



Beth yw proffil rheolwyr?

- Mae 199 o reolwyr yn fenywod ac 111 yn ddynion
- Mae 42% o reolwyr yn 40 oed neu iau
- Mae 96% o reolwyr yn Wyn Prydeinig, Cymreig neu Wyddelig
- Mae 35% yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl
- Mae llai nag 1% o reolwyr yn ystyried eu hunain yn anabl.